

## TUDALEN 59

Cofnodion y **Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid o bell, ynghyd â'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau**, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom ar **31 Ionawr 2022** am 6.30pm.

**YN BRESENNOL:** - Cynghorwyr: George Turner (yn y Gadair), Eu Teilyngdod y Maer, Owen Hurcum, Cynghorwyr Les Day, Medwyn Hughes, Derek Hainge, Elin Walker Jones, Huw Wyn Jones, John Wynn Jones, Kieran Jones, John Martin, Enid Parry, Nigel Pickavance, Gwynant Roberts, Mair Rowlands, Luke Tugwell, John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Clerc y Dref dros dro), Delyth Davies (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

### **226/22 YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### **227/22 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd y Cyng J W Jones a L Day ddi-ddordeb yn eitem 232/22 Rhoddion Ariannol

### **228/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

### **229/22 CROESO**

Eglurodd y Cadeirydd mai cyfarfod ar y cyd oedd hwn rhwng y Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid, a'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau. Y rheswm am hyn oedd bod angen gwneud penderfyniadau ariannol er mwyn gallu gosod y praesept mewn pryd.

### **230/22 DERBYN YR ADRODDIAD CYNLLUNIO 9 MIS YN ERBYN GWIRIONEDDOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Glerc y Dref dros dro. Eglurodd y byddai cryn dipyn o danwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, ac y byddai'r rhan fwyaf o'r swm hwn yn cael ei ddwyn ymlaen. Felly byddai'r Cyngor yn dechrau'r flwyddyn newydd mewn sefyllfa gref.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

### **231/22 DERBYN ADRODDIAD ARIANNOL CLERC Y DREF**

Eglurodd Clerc y Dref y sefyllfa o ran dwyn arian ymlaen. Mae'n ofyniad cyfreithiol cael rhyw ganran o arian wrth gefn. Ar ôl hynny gellid dyrannu'r arian sy'n weddill. Awgrymodd mai'r canlynol fyddai'r prif eitemau gwariant yn y flwyddyn sy'n dod:

Cynnal a chadw strwythurol ar y Pier

Gwaith ar seiliau Tŷ'r Pierfesitr

Tâl yswiriant y Pier

Atgyweirio to Neuadd y Penrhyn

## **TUDALEN 60**

Etholiadau mis Mai (gallai'r gost hon fod dipyn is os oes cystadlu am seddi ar Gyngor Gwynedd yr un pryd).

Yn ychwanegol at y rhain, roedd yn cynnig y canlynol:

Mwy o ddigwyddiadau a hyrwyddo (os yw sefyllfa'r pandemig yn dal i wella)

Mwy o hyfforddiant i Gynghorwyr, hen a newydd. Maes o law bydd hyn yn hanfodol pan ddaw deddfwriaeth newydd fydd yn datgan y gall Cynghorau wneud cais am "Dystysgrif Cymhwysedd" ac felly cael mwy o bwerau.

Buddsoddiad blynyddol sylweddol mewn mannau agored – mwy o dorri gwair, blodau ayb., coed a goleuadau Nadolig, llwybrau cyhoeddus, cynnal a chadw offer chwarae.

Diolchodd yr aelodau i Glerc y Dref dros dro am ei waith caled ar y gyllideb. Credent eu bod yn gyllideb ardderchog a chadarnhaol. Diolchwyd i'r Rheolwr Prosiectau hefyd a fu'n gweithio ochr yn ochr â Chlerc y Dref.

**PENDERFYNWYD** derbyn Adroddiad Ariannol Clerc y Dref.

### **232/22 CYTUNO AR AMCANGYFRIFON INCWM A GWARIANT AR GYFER 2022 – 2023**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r amcangyfrifon.

### **233/22 CYMERADWYO PRAESEPT 2022 - 2023**

Yn dilyn y trafodaethau uchod, cymeradwywyd y praesept.

### **233/22 DERBYN CEISIADAU AM RODDION ARIANNOL**

Mynegwyd diddordeb yn yr eitem hon gan y Cyng John Wynn Jones (Papur Goriad), hefyd Cyng Les Day (Cymdeithas Ddinesig Bangor).

Derbyniwyd ceisiadau gan y canlynol:

Grŵp Cymunedol Maes Tryfan  
Cymdeithas Ddinesig Bangor  
Papur Goriad  
Eisteddfod yr Urdd

#### **PENDERFYNWYD**

- i) gofyn i Glerc y Dref lunio canllawiau ar gyfer penderfynu ar roddion
- ii) tan hynny, rhoi £250 yr un i'r 3 elusen leol (Maes Tryfan, Cymdeithas Ddinesig Bangor a Papur Goriad) a £75 i Eisteddfod yr Urdd.

### **234/22 TRAFOD DYFODOL MAES CHWARAE'R PIER**

Bydd y bwyty newydd ger y Pier yn agor ddiwedd mis Mawrth felly roedd angen penderfyniad am y lle chwarae y tu allan iddo. Roedd yr offer wedi dirywio'n enbyd, ond, y teimlad cyffredinol oedd y byddai'r aelodau'n flin i weld lle chwarae yn diflannu o'r safle.

## **TUDALEN 61**

Y farn oedd bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r safle cyfan. Yn dilyn trafodaeth, awgrymwyd fod y Cyngor yn cyflogi pensaer tirwedd i wneud cynlluniau ar gyfer yr ardal. Gan fod hwn yn fater sensitif gyda nifer o elfennau ynghlwm wrtho, byddai'n fwy priodol ei drafod yn y Pwyllgor Asedau.

## **PENDERFYNWYD**

- i) trafod y mater hwn ymhellach yn y Pwyllgor Asedau
- ii) gofyn i Glerc y Dref ymchwilio i gyflogi arbenigwr i baratoi syniadau.

## **235/22 CYMERADWYO ANFONEBAU I'W TALU**

Roedd y rhestr taliadau wedi'i hanfon ymlaen llaw. Roedd un ymholiad – Clerc y Dref i wiri'r 2 daliad ar wahân i British Gas.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r rhestr daliadau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.00pm**

ACTING TOWN CLERK – Martin Hanks – CLERC Y DREF DROS DRO